Cymru Greadigol
Creative Wales

# NODIADAU CYFARWYDDYD ALLANOL

## Cymorth Ariannol 2024-25 Cymru Greadigol i Stiwdios Ffilm roedd Ailbrisio Ardrethi Annomestig yn 2023 wedi Effeithio Arnynt

Bydd y nodiadau cyfarwyddyd hyn yn eich helpu i lenwi'r cais am gyllid ar gyfer Cronfa Ardrethi Annomestig Stiwdios Cymru Greadigol 2024-25.

Dyddiad Lansio Cronfa Ardrethi Annomestig Stiwdios: **Dydd Llun 30 Medi 2024**
Dyddiad Cau Cronfa Ardrethi Annomestig Stiwdios: **Dydd Llun 2 Rhagfyr 2024 12pm**

### 1. Cymru Greadigol - Cyd-destun Strategol

Mae'r Diwydiannau Creadigol yn rhan bwysig o economi Cymru, gan greu swyddi a chyfoeth, cyfrannu at frand cenedlaethol cryf a hyrwyddo Cymru yn y byd. Mae'r sector ffilm a theledu yn benodol wedi bod yn sector blaenoriaeth i Cymru Greadigol ers ei sefydlu ym mis Ionawr 2020, a chyn hynny roedd yn sector blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

Mae buddsoddiad wedi'i dargedu mewn seilwaith stiwdios wedi bod yn hollbwysig i dwf y sector a gallu Cymru i gystadlu â rhannau eraill o'r DU i gynnal cynyrchiadau rhyngwladol mawr. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae rhai o stiwdios Cymru wedi llwyddo oherwydd y buddsoddiad i fod yn ddigon mawr i allu cynnal cynyrchiadau rhyngwladol mawr. Mae cymorth cyfalaf ar gael drwy gyllid grant Cymru Greadigol i gymell cynyrchiadau i leoli eu hunain yng Nghymru.

Daeth yr ailbrisiad ardrethi annomestig diweddaraf i rym ar 1 Ebrill 2023, ar sail dyddiad prisio rhagflaenol (AVD: pwynt cyfeirio safonol ar gyfer tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r prisiadau) sef 1 Ebrill 2021. Mae Asiantaeth annibynnol y Swyddfa Brisio (VOA) yn gyfrifol am asesu pob eiddo annomestig yng Nghymru a Lloegr er mwyn pennu gwerthoedd ardrethol. Eu bwriad cyffredinol yw adlewyrchu gwerth rhenti blynyddol. Pwrpas ailbrisiad yw ailasesu'r sylfaen drethu gyfan a neilltuo gwerthoedd ardrethol diwygiedig i adlewyrchu'r newidiadau yn amodau'r farchnad rentu ers yr ailbrisiad blaenorol. Bwriad ailbrisiadau rheolaidd yw sicrhau tegwch ar draws y sylfaen drethu yn y ffordd mae trethdalwyr yn cyfrannu at y refeniw sy'n cael ei godi drwy ardrethi annomestig i gefnogi gwasanaethau lleol. O ganlyniad i ailbrisiad 2023, bydd gan rai sectorau werthoedd ardrethol uwch a bydd eraill wedi gostwng neu wedi aros ar lefel debyg.

**Pwrpas y gronfa**

Nod y gronfa yw rhoi cymorth ariannol i stiwdios ffilm a welodd gynnydd mawr yn eu hatebolrwydd ardrethi annomestig ers ailbrisiad mis Ebrill 2023. Bydd y cymorth yn cael ei ddarparu ar ffurf grant drwy Cymru Greadigol sydd, ar gyfer stiwdios ffilm cymwys, yn darparu cydraddoldeb â faint o gymorth a gyhoeddwyd ar gyfer Lloegr yn 2024-25. Bwriad y cymorth a roddir yw sicrhau, mewn gwirionedd, nad yw stiwdios ffilm cymwys yn talu mwy na 60% o'u hatebolrwydd ardrethi annomestig gros (hy beth fyddai eu hatebolrwydd heb unrhyw ryddhad ardrethi annomestig arall maent yn gymwys i'w gael, gan gynnwys rhyddhad trosiannol, a'r grant hwn). Ar gyfer stiwdios cymwys, bydd gwerth y grant yn gwrthbwyso'r gwahaniaeth rhwng 60% o'u hatebolrwydd gros a'u bil ardrethi annomestig go iawn (a roddir yn uniongyrchol i'r stiwdio gan yr awdurdod lleol perthnasol).

2. **Proses y Gronfa, Pwy sy'n cael gwneud cais? Meini Prawf Cymhwysedd (gweler Atodiad 1)**

Bydd y Cais hwn am gynigion cyllido yn dechrau ddydd Llun 30 Medi 2024 a rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn hanner dydd, dydd Llun 2 Rhagfyr 2024. Ni fydd unrhyw geisiadau hwyr yn cael eu hystyried.

I gael ffurflen gais, anfonwch neges i **CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru**

Bydd angen i'r ymgeiswyr ateb pob rhan o'r ffurflen gais a chynnwys yr holl wybodaeth ategol y gofynnir amdani, gan gynnwys manylion ariannol llawn ac amserlen taliadau ar gyfer y grant. Dylid cyflwyno ffurflenni cais wedi'u llenwi i **CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru**

Bydd Diwydrwydd Dyladwy yn cael ei gynnal ar bob cais. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'ch rhagamcanion ariannol, archwiliad twyll, a gwiriadau ar Gyfarwyddwyr eich cwmni. Os ydych chi'n ymwneud â busnes sydd mewn dyled i Lywodraeth Cymru, mae'n annhebygol y byddwch yn gallu gwneud cais am ragor o gyllid a dylech drafod hyn â ni cyn gwneud unrhyw gais.

Y cyfnod cyllido cymwys fydd 1 Ebrill 2024 tan 31 Mawrth 2025.

a. Rhaid i ymgeiswyr:

- fod yng Nghymru ac yn cyflogi staff yng Nghymru;
- fod wedi bod yn masnachu cyn 1 Ebrill 2023 ac yn dal i fasnachu (bydd angen tystiolaeth o hyn ar ffurf cyfrifon ariannol o'r cyfnod ariannol diwethaf);
- beidio â bod wedi'u clustnodi i'w cau, na bod â risg uchel o gau (bydd angen tystiolaeth o hyn ar ffurf cyfrifon ariannol o'r cyfnod ariannol diwethaf ac adolygiad llawn o ddiwydrwydd dyladwy);

b. Rhaid i stiwdios cymwys fod yn cael eu defnyddio i gynhyrchu ffilmiau neu raglenni teledu a'u bod i gyd, neu ran ohonynt, yn cynnwys llwyfannau sain neu setiau ffilm.

c. Rhaid i stiwdios cymwys fod wedi cael cynnydd o fwy na 50% mewn gwerth ardrethol **ers 31 Mawrth 2023**. Bydd hyn yn seiliedig ar eich cadarnhad VOA diweddaraf. Bil ardrethi annomestig go iawn stiwdio yw'r un a gyhoeddir gan yr awdurdod lleol perthnasol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, ar sail gwerth ardrethol cyfredol y cyfleuster.

**Enghreifftiau**

***Stiwdio A – Yn gymwys i gael rhyddhad trosiannol:***

Roedd gan Stiwdio A werth ardrethol o £100,000 ar 31 Mawrth 2023, cyn yr ailbrisiad ardrethi annomestig. Ers hynny, mae hyn wedi codi i £300,000, sy'n gynnydd o 200% mewn gwerth ardrethol. Mae Stiwdio A **yn gymwys** i gael rhyddhad trosiannol (ond dim rhyddhad ardrethi annomestig arall).

Yn 2024-25, bil ardrethi annomestig Stiwdio A yw £132,220 (*ar ôl rhoi'r rhyddhad trosiannol*).

Mae 60% o atebolrwydd gros Stiwdio A yn £101,160.

Mae Stiwdio A yn gymwys i gael grant o **£31,060** (y gwahaniaeth rhwng y ddau ffigur uchod).

***Stiwdio B – Ddim yn gymwys i gael rhyddhad trosiannol:***

Roedd gan Stiwdio B werth ardrethol o £100,000 ar 31 Mawrth 2023, cyn yr ailbrisiad ardrethi annomestig. Ers hynny, mae hyn wedi codi i £300,000, sy'n gynnydd o 200% mewn gwerth ardrethol. Dydy Stiwdio B **ddim yn gymwys** i gael rhyddhad trosiannol (nac unrhyw ryddhad ardrethi annomestig arall).

Yn 2024-25, bil ardrethi annomestig Stiwdio B yw £168,600.

Mae 60% o atebolrwydd gros Stiwdio B yn £101,160.

Mae Stiwdio B yn gymwys i gael grant o **£67,440** (y gwahaniaeth rhwng y ddau ffigur uchod).

Mae rhagor o fanylion am sut mae rhyddhad trosiannol yn gweithio, gan gynnwys manylion cyfrifo gwerth rhyddhad trosiannol, ar gael yn: https://businesswales.gov.wales/cy/ardrethi-annomestig-rhyddhad-ardrethi-trosiannol-ar-gyfer-ailbrisiad-2023

**Y ffurflen gais**

Bydd angen i bob cais gynnwys y bil ardrethi annomestig diweddaraf ar gyfer 2024-25 (a fydd yn dangos unrhyw newidiadau a wnaed i'r gwerth ardrethol gan y VOA) gan yr awdurdod lleol perthnasol a chadarnhad o'r newidiadau a wnaeth yr VOA i'r gwerth ardrethol ers 31 Mawrth 2023. Bydd hefyd angen i ymgeiswyr ddarparu cyfrifon busnes a chyfriflenni banc ar gyfer y tri mis blaenorol fel rhan o'r broses ymgeisio. Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei rhoi yma, ac mewn dogfennau perthnasol eraill, yn cael ei defnyddio i bennu a yw'r busnes yn gymwys i gael cyllid o ganlyniad i'w hatebolrwydd ardrethi annomestig a gadarnhawyd yn ogystal â'i amgylchiadau ariannol. Bydd gofyn ichi hefyd ddarparu gwybodaeth am eich rhagolygon a'ch amgylchiadau presennol yn y stiwdio:

- meddiannaeth y stiwdio ar gyfer y flwyddyn dan sylw;
- datblygiadau i'r stiwdio sy'n effeithio ar y cyfraddau sy'n daladwy; a
- ffactorau ehangach, fel y biblinell gynhyrchu yng Nghymru

Mae 6 adran i'r ffurflen gais:

**Ffurflen gais – Adran 1 – Manylion yr ymgeisydd**

Yn yr adran hon, mae'n rhaid ichi roi manylion eich sefydliad, eich safle ac unrhyw swyddi ar adeg y ceisiadau a'r rheini y rhagwelir y byddant yn cael eu diogelu neu eu creu o ganlyniad i'r cyllid grant hwn. Sylwch nad yw hyn yn rhan o'r meini prawf cymhwysedd a nodir ym mharagraff 2 uchod ac yn Atodiad 1.

**Ffurflen gais – Adran 2 – Manylion Cymhwysedd**

Yn yr adran hon, bydd angen ichi roi manylion eich bil ardrethi annomestig blynyddol ar gyfer 2024-25, yn ogystal â manylion newidiadau i werth ardrethol y cyfleuster ers 31 Mawrth 2023.

**Ffurflen gais – Adran 3 – Ffit Strategol, Tystiolaeth o'r Angen a Gwybodaeth Ariannol**
Bydd hefyd angen ichi egluro pa effaith bydd y grant yn ei chael ar y busnes a sut bydd yn helpu i gefnogi cynaliadwyedd eich busnes.

Rhaid ichi hefyd gynnwys sut bydd y Gymraeg yn cael ei chynnwys yn eich busnes a sut bydd yn cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel y nodir yn Cymraeg 2050.

Gofynnir ichi hefyd ddangos sut byddwch yn cyd-fynd ag Addunedau'r Contract Economaidd a pholisi Gwaith Teg Llywodraeth Cymru.

Mae pedair adduned yn y Contract Economaidd, ac yn yr adran hon, mae'n rhaid ichi egluro sut mae eich busnes yn cyd-fynd â dwy neu ragor o'r addunedau hyn. I'ch helpu i ddeall addunedau'r Contract Economaidd, edrychwch ar Y Contract Economaidd | Busnes Cymru (llyw.cymru).

Yn ogystal â'r adran ar Addunedau Economaidd, mae'r adran hon yn gofyn am eglurder ac ymrwymiad ar eich arferion gwaith teg. Mae gwaith teg yn golygu bod amodau amlwg yn bodoli yn y gwaith sy'n golygu bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed a'u cynrychioli, yn ddiogel ac yn gallu symud ymlaen mewn amgylchedd gwaith iach a chynhwysol lle caiff hawliau eu parchu.

Bydd y camau bydd sefydliad yn eu cymryd i fynd ar drywydd gwaith teg yn dibynnu ar amgylchiadau penodol y sefydliad hwnnw. Efallai na fydd rhai camau'n briodol nac yn ymarferol i bob sefydliad, mater i bob sefydliad yw penderfynu pa gamau sy'n addas.

Gweler hefyd Canllaw i waith teg | LLYW.CYMRU i gael rhagor o wybodaeth i'ch helpu i lenwi'r adran hon o'r cais.

**Ffurflen gais – Adran 4 – Allbynnau**

Bydd angen ichi hefyd gadarnhau a fydd unrhyw rai o'r allbynnau a awgrymir yn berthnasol o ganlyniad i'r cyllid grant.

**Allbynnau a chanlyniadau**

Bydd y cyllid yn canolbwyntio ar nifer o allbynnau a chanlyniadau allweddol, gan gynnwys:

- Cefnogi stiwdios yng Nghymru drwy wrthbwyso'r ardrethi ychwanegol sydd i'w talu
- Cynnal a thyfu cynnig/darpariaeth stiwdios Cymru ar hyn o bryd a sicrhau eu bod yn dal yn hyfyw, yn gynaliadwy ac yn gystadleuol.
- Cefnogi cynyrchiadau yng Nghymru a chynyrchiadau sy'n dod i Gymru ac sy'n dymuno defnyddio stiwdios i ffilmio heb gost ychwanegol.
- Tyfu ein heconomi greadigol drwy gynyddu nifer y cynyrchiadau a denu mewnfuddsoddiad, creu swyddi a chyfleoedd newydd i bobl yng Nghymru
- Helpu i sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gystadleuol ar lefel fyd-eang.

Bydd gofyn i'r ymgeiswyr ddewis allbynnau perthnasol wrth wneud cais, a bydd rhain yn cael eu nodi ar y llythyr cynnig.

**Ffurflen gais – Adran 5 – Rhestr wirio ar gyfer yr wybodaeth ofynnol**

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cynnwys yr holl ddogfennau angenrheidiol yn ogystal â'r ffurflen gais.

**Ffurflen gais – Adran 6 – Datganiadau**

Mae'n bwysig iawn eich bod wedi darllen y ddogfen ganllawiau hon ac yn deall y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r cais hwn am Grant gan fod hyn yn rhan o'r contract rhyngoch chi a Llywodraeth Cymru.

Os ydych chi'n cytuno â'r telerau a'r amodau yn y ddogfen hon ac y gallwch chi gadarnhau bod yr wybodaeth sy'n cael ei rhoi yn y cais yn wir ac yn gywir, mae'n rhaid ichi roi tic yn y blwch a chyflwyno eich cais.

Ar ôl ei llenwi, cyflwynwch eich ffurflen gais a'r dogfennau ategol i **CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru**

Dylai ymgeiswyr nodi ei bod hi'n **bosibl gwrthod** ceisiadau sydd â data anghyflawn neu anghywir neu geisiadau heb y dogfennau ategol angenrheidiol.

## Arfarnu

Ar ôl inni gael eich cais cyflawn, byddwn yn cynnal arfarniad a'n nod yw rhoi gwybod ichi am ganlyniad ein penderfyniad cyn gynted â phosibl. Bydd yr arfarniad yn cael ei gynnal i sicrhau bod yr holl feini prawf cymhwysedd sylfaenol wedi cael eu bodloni yn Atodiad 1. Bydd ceisiadau nad ydynt yn bodloni'r holl wiriadau cymhwysedd ar gyfer cyllid yn cael eu gwrthod.

Bydd Diwydrwydd Dyladwy yn cael ei gynnal ar bob cais. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'ch rhagamcanion ariannol, archwiliad twyll, a gwiriadau ar Gyfarwyddwyr eich cwmni. Os ydych chi'n ymwneud â busnes sydd mewn dyled i Lywodraeth Cymru, mae'n annhebygol y byddwch yn gallu gwneud cais am ragor o gyllid a dylech drafod hyn â ni cyn gwneud unrhyw gais.

Bydd ceisiadau llwyddiannus yn cael llythyr Cynnig Grant a fydd yn amlinellu manylion telerau ac amodau ein cynlluniau grant, a manylion sydd ond yn berthnasol i'r gronfa. Ar ôl i'r ymgeiswyr gael y llythyr hwn, bydd angen iddynt ei lofnodi a'i ddychwelyd atom cyn gynted â phosibl, ac ar yr amod eu bod yn fodlon ar y telerau ac amodau sy'n cael eu hamlinellu yn y cynnig grant.

## Cymeradwyo

- Bydd yr holl gynigion a aseswyd yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Llywodraeth Cymru i'w cymeradwyo'n derfynol;
- Ar ôl i'r Gweinidog eu hystyried, bydd yr ymgeiswyr yn cael gwybod am y penderfyniad terfynol a bydd llythyrau cynnig yn cael eu hanfon at yr ymgeiswyr llwyddiannus;
- Bydd angen llofnodi'r llythyrau cynnig a dychwelyd un copi i Lywodraeth Cymru.

## Apeliadau

Mae'r cymorth hwn ar gael o gronfa ddewisol heb unrhyw apeliadau.

Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael eu hysbysu drwy e-bost yn dilyn y penderfyniad asesu.

## Amserlen

Bydd y Cais hwn am gynigion cyllido yn dechrau ddydd Llun 30 Medi 2024 a bydd yn rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn hanner dydd, dydd Llun 2 Rhagfyr 2024. Ni fydd unrhyw geisiadau hwyr yn cael eu hystyried.

## Proses hawlio ac amodau'r gronfa

Bydd y dyfarniad yn cael ei dalu ar sail gwariant a dalwyd. Bydd hawliadau'n cael eu talu ar ôl cael prawf o'r taliad (hy bil ardrethi).

Gofynnir ichi roi amserlen hawlio wedi'i chynllunio ar gyfer y cyfnod cyllido llawn rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. 31 Mawrth 2025 fydd y dyddiad cau ar gyfer yr hawliad terfynol.

## Talu a Monitro

- Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd angen bodloni amodau talu, fel y nodir yn amserlen llythyr y cynnig.
- Bydd ffurflenni hawlio'n cael eu hanfon ar gais ac mae modd eu cyflwyno dros e-bost i **CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru**
- Ar ôl cymeradwyo, bydd y taliad yn cael ei wneud yn unol â thelerau'r llythyr cynnig grant.

## Monitro ar ôl Cwblhau

Bydd yr allbynnau y cytunwyd arnynt yn dal i gael eu cofnodi am hyd at 12 mis ar ôl cwblhau'r cyllid a byddant yn amod o'r cynnig grant.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i werthuso llwyddiant y grant hwn ac mae'n bwriadu cynnal gwerthusiad mewnol o'r gronfa. Rhagwelir y bydd yr ymchwil hon yn archwilio gweithrediad ac effaith y gweithgareddau a gyflawnwyd. Bydd yn asesu i ba raddau mae modd priodoli'r allbynnau a'r canlyniadau'n uniongyrchol i weithgareddau'r cynllun ac yn archwilio a wireddwyd effeithiau ehangach a ragwelwyd neu nas rhagwelwyd.

Efallai y bydd Llywodraeth Cymru neu drydydd parti a fydd yn gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru yn cysylltu â chi at ddibenion ymchwil a gwerthuso a/neu ichi roi adborth ar eich profiad o'r cynllun. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei dadansoddi a'i chyflwyno'n ddienw yn unol â'r Hysbysiad Preifatrwydd.

**Rheoli Cymhorthdal**

Bydd dyfarniadau dan y gronfa'n cael eu gwneud yn unol â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2021 yn unol â 2024-25 Cymru Greadigol i Stiwdios Ffilm roedd Ailbrisio Ardrethi Annomestig yn 2023 wedi Effeithio Arnynt SC11193. Mae manylion llawn y Cynllun ar gael yn: [GOV.UK - Public user search subsidy scheme details page (beis.gov.uk)]

**Y Contract Economaidd – Addunedau'r Contract Economaidd a Gwaith Teg**

Mae'r Contract Economaidd yn ymrwymiad i ddarparu buddsoddiad cyhoeddus sy'n blaenoriaethu anghenion cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru ar yr un pryd ag adeiladu economi llesiant fwy cydnerth a ffyniannus.  Wrth galon ein dull gweithredu Rhywbeth am Rywbeth, cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a busnesau ar y camau y bydd y naill ochr a'r llall yn eu cymryd sy'n cyfrannu at fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau ac i wella bywydau pobl ar hyd a lled Cymru.

**Cyhoeddusrwydd**

Bydd angen i bob cais llwyddiannus:

- gytuno i gael ei gynnwys ar unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd, deunydd marchnata a datganiadau i'w wasg byddwn yn eu cynhyrchu;
- Bydd disgwyliad hefyd y bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn rhannu delweddau; perthnasol a deunyddiau cyhoeddusrwydd â Cymru Greadigol inni eu defnyddio yn ôl yr angen.

**Y Gymraeg**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo ac i ddatblygu'r Gymraeg. Mae'r diwydiannau creadigol yn chwarae rhan allweddol drwy gyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel y nodir yn Cymraeg 2050.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae amcanion y Ddeddf yn dangos sut bydd pob corff cyhoeddus yn gweithio i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer Cymru a nodir yn y 'nodau llesiant'. Mae'r saith nod llesiant yn dangos y Gymru yr hoffem ei gweld.

Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i’r cyrff cyhoeddus a restrir weithio i gyflawni’r holl nodau, nid dim ond un neu ddau. Bydd nodi ac egluro sut mae eich busnes yn cyflawni’r nodau hyn yn bwysig wrth asesu’r cais.

**Hysbysiad Preifatrwydd**

Llywodraeth Cymru yw’r Rheolydd Data ar gyfer unrhyw wybodaeth rydych chi’n ei darparu. Mae manylion llawn ein polisi preifatrwydd ar gael yma: Hysbysiad preifatrwydd.

A fyddech cystal â chadarnhau yn yr adran ar eich ffurflen gais eich bod yn fodlon bwrw ymlaen ar y sail hon er mwyn ichi allu parhau i gael cymorth a chyngor gan Lywodraeth Cymru.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen, deall a derbyn y 'Nodiadau Cyfarwyddyd' a'r 'Hysbysiad Preifatrwydd' **cyn** ichi ddechrau'r cais.

**Atodiad 1 - Meini Prawf Cymhwysedd**

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn y lle cyntaf yn erbyn y meini prawf cymhwysedd canlynol.

Bydd ceisiadau nad ydynt yn bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd yn cael eu gwrthod yn awtomatig ac ni fyddant yn symud ymlaen i'r cam arfarnu.

| | |
|---|---|
| Meini Prawf Cymhwysedd | 1. Rhaid i gwmnïau ymgeiswyr:<br>a. fod yng Nghymru ac yn cyflogi staff yng Nghymru.<br>b. fod wedi bod yn masnachu cyn 1 Ebrill 2023 ac yn dal i fasnachu (bydd angen tystiolaeth o hyn ar ffurf cyfrifon ariannol o'r cyfnod ariannol diwethaf)<br>c. beidio â bod wedi'u clustnodi i'w cau, na bod â risg uchel o gau.<br><br>2. Rhaid i stiwdios cymwys fod yn cael eu defnyddio i gynhyrchu ffilmiau neu raglenni teledu a'u bod i gyd, neu ran ohonynt, yn cynnwys llwyfannau sain neu setiau ffilm<br>3. Wedi cael cynnydd yn eu gwerth ardrethol o fwy na **50% ers 31 Mawrth 2023**. Bydd hyn yn seiliedig ar eich cadarnhad VOA diweddaraf. |